Cronfa Ymddiriedolaeth Plant a phlant sy'n derbyn gofal

Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol (Cymru a Lloegr)

Cynnwys

1. Cyflwyniad
2. CYP a phlant sy'n derbyn gofal
3. Rôl a Dyletswyddau'r Awdurdod Lleol
4. Gwybodaeth sydd ei hangen ar Gyllid a Thollau EM
5. Cyfrifoldeb Rhiant a'r Cyfreithiwr Swyddogol
6. Newidiadau mewn Cyfrifoldeb Rhiant
7. Dyletswyddau Ychwanegol ar ôl 31 Awst 2009
8. Anfon y Ffurflen i'r Swyddfa Cronfa Ymddiriedolaeth Plant
9. Materion Eraill
10. Mwy o Wybodaeth

Atodiad A – Cyfeirnodau Unigryw yr Awdurdodau Lleol a Phersonau Cyswllt y Swyddfa Cronfa Ymddiriedolaeth Plant
Atodiad B - Ffurflen enghraifft ar gyfer ceisiadau am wybodaeth i Swyddfa Cronfa Ymddiriedolaeth Plant am fanylion darparwr i wneud taliadau ychwanegol
Atodiad C - Ffurflen enghraifft ar gyfer manylion darparwr cyflenwad i Awdurdod Lleol i wneud taliadau ychwanegol.

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r canllawiau hyn yn egluro cyfrifoldebau'r awdurdodau lleol o ran plant sy'n derbyn gofal a'r Gronfa Ymddiriedolaeth Plant (CYP).

Beth yw'r Gronfa Ymddiriedolaeth Plant?

1.2 Cyfrif cynilo a buddsoddi hirdymor i blant yw'r CYP. Mae'r cynllun yn ffurfio rhan o raglen ehangach y Llywodraeth i ddarparu dyfodol gwell ar gyfer plant a phobl ifanc, a'i hagenda lles o annog cynilo a buddsoddi.

1.3 Bydd y CYP yn rhoi ased ariannol i bob plentyn a pherson ifanc a all effeithio'n sylweddol ar eu cyfleoedd yn y dyfodol. Bydd plant yn derbyn addysg ariannol yn yr ysgol. Defnyddir y CYP – ased a fydd gan bob person ifanc - fel enghraifft bywyd go iawn mewn gwersi ynghylch cyllid a datblygu gallu ariannol.

1.4 Mae plant a aned ar neu ar ôl 1 Medi 2002 yn gymwys ar gyfer CYP os dyfarnwyd Budd-dal Plant ar eu cyfer, maent yn byw yn y DU ac nid ydynt yn amodol ar gyfyngiadau mewnfudo.

2. CYP a phlant sy'n derbyn gofal

2.1 Fel yr amlinellwyd uchod, mae cyfrifon CYP fel arfer yn gysylltiedig â dyfarniad Budd-dal Plant. Ni thelir Budd-dal Plant fel arfer ar gyfer plant tra byddant yn derbyn gofal felly mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno rheoliadau er mwyn sicrhau nad yw plant sy'n derbyn gofal yn colli allan.

2.2 Os dyfernir Budd-dal Plant ar gyfer plentyn cyn y bydd yn derbyn gofal yna bydd yn gymwys ar gyfer cyfrif CYP yn y dull arferol – h.y. bydd taleb CYP wedi'i hanfon at hawliwr y Budd-dal Plant. Ond lle mae plentyn yn mynd i mewn i ofal heb ddyfarniad Budd-dal Plant neu lle nad oes neb priodol â chyfrifoldeb rhiant, a byddai fel arall yn gymwys ar gyfer y CYP, bydd Cyllid a Thollau EM yn agor cyfrif CYP ar gyfer y plentyn. Rôl yr awdurdod lleol yw **helpu i amlygu'r plant hynny nad oes cyfrif CYP ganddynt neu nad oes ganddynt neb priodol â chyfrifoldeb rhiant.**

3. Rôl a dyletswyddau'r awdurdod lleol

3.1 Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i ddarparu peth gwybodaeth sylfaenol i'r Swyddfa Cronfa Ymddiriedolaeth Plant (CYP) am y plant yn eu gofal er mwyn sicrhau y byddant yn derbyn eu cyfrif CYP.

3.2 Mae dwy broses y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu dilyn o ran plant a aned ar neu ar ôl 1 Medi 2002:

- amlygu'r plant **sy'n dod i mewn i'w gofal am y tro cyntaf er 6 Ebrill 2005** a darparu gwybodaeth amdanynt, ac
- amlygu'r plant sy'n derbyn gofal heb **neb (neu neb priodol) â chyfrifoldeb rhiant.**

3.3 Bydd y Swyddfa Cronfa Ymddiriedolaeth Plant yn defnyddio'r wybodaeth hon i amlygu unrhyw blant sydd heb gyfrif CYP ac yn sicrhau yr agorir un ar eu cyfer. Lle mae rhywun priodol â chyfrifoldeb rhiant, bydd Cyllid a Thollau EM yn ysgrifennu gan ddarparu manylion cyfrif y plentyn. Lle nad oes neb (neu neb priodol) â chyfrifoldeb rhiant, bydd Cyllid a Thollau EM yn trefnu i'r Cyfreithiwr Swyddogol reoli cyfrif CYP y plentyn hwnnw. Caiff yr wybodaeth y bydd yr awdurdodau lleol yn ei rhoi ei diogelu'n llym. Mae staff Cyllid a Thollau EM yn gweithio o fewn protocolau gwybodaeth llym.

Fframwaith deddfwriaethol

3.4 Ceir gwybodaeth am fframwaith deddfwriaethol y cynllun yn:

- Adran 16 Deddf Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant 2004
- Rheoliadau Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant 2004 (OS 1450) fel y'u diwygiwyd.

Mae Rheoliadau 33 a 33A Rheoliadau Cronfa Ymddiriedolaeth Plant fel y'u diwygiwyd gan Reoliad 14A y Rheoliadau Cronfa Ymddiriedolaeth Plant (Diwygio) (OS 2676) yn amlinellu dyletswyddau'r awdurdodau lleol.

Mae Rheoliadau Cronfa Ymddiriedolaeth Plant (Diwygio Rhif 2) (OS 3382) 21 Rhagfyr 2004 yn amlinellu cyfrifoldebau'r Cyfreithiwr Swyddogol.

3.5 Yn benodol, mae Rheoliadau 33 a 33A Rheoliadau Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant 2004 yn amlinellu cyfrifoldebau'r awdurdodau lleol o ran plant sy'n derbyn gofal. At ddibenion y Rheoliadau hyn, mae "plant sy'n derbyn gofal" fel y'u diffinnir yn adran 22(1) Deddf Plant 1989, sydd wedi'i hehangu i gynnwys plant y mae awdurdod lleol wedi darparu llety iddynt dan adran 17 y Ddeddf honno. Rhaid adrodd unrhyw blentyn sy'n gymwys fel plentyn sy'n derbyn gofal o fewn y diffiniad hwn. Mae hyn yn cynnwys plant sy'n derbyn gofal ac sydd wedi'u rhoi mewn cartrefi gwirfoddol i'w mabwysiadu, y rhai hynny sy'n derbyn gofal seibiant byr, rheini mewn gofal ysbaid a phlant sy'n derbyn gofal dan orchymyn gofal dros dro. Gellir gweld Rheoliadau Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant 2004 yn http://www.legislation.hmso.gov.uk/si/si2004/20041450.htm

3.6 Mae'r rheoliadau a'r canllawiau yn seiliedig ar Ddeddf Plant 1989 a Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002.

4. Gwybodaeth sydd ei hangen ar Gyllid a Thollau EM

4.1 Mae'n rhaid i awdurdodau lleol roi datganiad i Swyddfa Cronfa Ymddiriedolaeth Plant (CYP) Cyllid a Thollau EM bob mis. Bydd pob cyfnod datgan misol yn rhedeg o'r 7fed o'r mis i'r 6ed o'r mis nesaf, ac mae gan yr awdurdod lleol 10 diwrnod o ddiwedd y cyfnod datgan i anfon eu datganiad. Felly mae'n rhaid anfon datganiadau cyn yr 17eg o bob mis.

4.2 Yr wybodaeth sydd ei hangen yw datganiad ar gyfer pob plentyn (a aned ar neu ar ôl 1 Medi 2002 ac yn mynd i mewn i ofal yr awdurdod lleol hwnnw am y tro cyntaf er 6 Ebrill 2005) gan gynnwys:

- Enw'r awdurdod lleol
- Cyfeiriad yr awdurdod lleol
- Enw'r swyddog awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y datganiad

- Enw llawn, rhyw a dyddiad geni'r plentyn
- Cyfeirnod y Swyddfa Gartref, os yn gymwys
- Dyddiad y daeth y plentyn i mewn i ofal yr awdurdod lleol am y tro cyntaf
- Manylion y rhieni biolegol
- Manylion y cyfrifoldeb rhiant
- Yn ogystal, dylai awdurdodau lleol adrodd unrhyw blentyn yn eu gofal a aned ar neu ar ôl 1 Medi 2002 y mae eu hamgylchiadau yn newid fel nad oes ganddo bellach rywun priodol â chyfrifoldeb rhiant (gweler adran 5 isod).

Dynodydd Unigryw

4.3 Mae gan bob awdurdod lleol ddynodydd unigryw eisoes y mae Cyllid a Thollau EM yn ei ddefnyddio i ddibenion treth eraill. Defnyddir y rhif hwn i ddibenion CYP hefyd. Mae Atodiad A yn darparu rhestr o'r cyfeirnodau unigryw.

Enw llawn, rhyw a dyddiad geni'r plentyn

4.4 Mae'n bwysig bod enw cywir, llawn, rhyw a dyddiad geni y plentyn yn cael eu rhoi i helpu'r Swyddfa CYP i adnabod pob plentyn. Bydd Cyllid a Thollau EM yn gwirio a oes gan y plentyn gyfrif CYP eisoes. Gall y plentyn fod ag enw tebyg i eraill a aned ar yr un diwrnod. Os yw enw'r plentyn wedi newid neu os y'i hadwaenir dan fwy nag un enw dylai'r awdurdodau lleol gynnwys yr wybodaeth hon yn y datganiad.

Cyfeirnod y Swyddfa Gartref

4.5 Nid yw plant sy'n amodol ar reolaeth fewnfudo ac na allant aros yn y DU ond am amser penodol yn gymwys ar gyfer y CYP. Mae'n bosibl bod yr awdurdodau lleol yn gofalu am rai plant yn y categori hwn. Dim ond plant sydd wedi'u cydnabod fel ffoaduriaid ac y caniatawyd iddynt gartrefu (caniatâd amhenodol i aros) a fydd yn gymwys ar gyfer cyfrif

CYP. Ni fydd plant a gafodd ganiatâd dewisiadol neu ddiogelwch dyngarol yn gymwys.

4.6 Os ydych yn ymwybodol na all y plentyn aros yn y DU ond am amser penodol darparwch fanylion yn y blwch gwybodaeth ychwanegol ar y ffurflen. Hefyd dylai'r plant hyn fod â chyfeirnod Swyddfa Gartref, y mae'r Swyddfa Gartref yn ei ddarparu i awdurdodau lleol fel y gallant wneud cais am arian ar gyfer y plentyn. Os ydych yn gwybod y cyfeirnod Swyddfa Gartref, dylid darparu hwn ar y ffurflen.

Manylion y Rhieni Biolegol

4.7 Mae rhai anawsterau wedi bod wrth olrhain rhai o'r plant sydd wedi'u cynnwys mewn datganiadau gan awdurdodau lleol. Er mwyn helpu'r broses olrhain, dylai'r awdurdodau lleol ddarparu manylion mam fiolegol y plentyn (enw a chyfeiriad) os yn bosibl, neu'r tad biolegol. Gall fod amgylchiadau lle y byddai'n amhriodol i'r awdurdod lleol ddarparu'r wybodaeth hon, (er enghraifft lle y caiff plant eu hildio yn syth ar ôl iddynt gael eu geni ac nid yw'r rhieni am gael unrhyw gysylltiad). Mewn achosion o'r fath dylid gadael y rhan hon yn wag.

4.8 **Ni ddefnyddir mo'r manylion hyn i ohebiaeth** ac ni chânt eu pasio ymlaen.

Manylion y Cyfrifoldeb Rhiant

4.9 Bydd y Swyddfa CYP yn agor cyfrif CYP ar gyfer plant sy'n derbyn gofal nad oeddynt yn rhan o ddyfarniad Budd-dal Plant cyn mynd i mewn i ofal ac felly ni fyddant wedi derbyn taleb CYP. Felly mae ar y Swyddfa CYP angen gwybodaeth (enw llawn a chyfeiriad) am rywun â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn. Dylid darparu hon ar gyfer pob plentyn. Bydd y Swyddfa CYP yn cysylltu â'r person y mae'r awdurdod lleol wedi'i enwi gan ddarparu manylion y cyfrif, oni ddywed yr awdurdod lleol wrthi am beidio â gwneud hynny (gweler 4.11 isod).

4.10 Os nad oes neb neu neb priodol â chyfrifoldeb rhiant (gweler isod am y chwe amod lle'r ystyrir bod rhywun yn amhriodol at ddibenion CYP), yna rhaid i'r awdurdod lleol ddangos pa rai o'r chwe amod sy'n gymwys a darparu enw a chyfeiriad ar gyfer gohebiaeth. Gan amlaf, mae'n briodol defnyddio person cyswllt o fewn yr awdurdod lleol a allai anfon unrhyw ohebiaeth ymlaen at y plentyn neu ofalwr presennol y plentyn.

4.11 Mae wedi dod i'r amlwg bod amgylchiadau lle, er nad yw person â chyfrifoldeb rhiant am blentyn yn perthyn i unrhyw un o'r chwe amod lle'r ystyrir bod rhywun yn amhriodol at ddibenion CYP, nad yw'r awdurdod lleol o'r farn ei fod yn addas cysylltu â'r person hwn ynglŷn â'r plentyn (e.e. ni chafwyd gorchymyn llys erbyn i'r awdurdod lleol anfon ei ddatganiad misol). Mae blwch ticio wedi'i ychwanegu at y ffurflen y dylai awdurdodau lleol ei ddefnyddio dan yr amgylchiadau

hyn. Ni ddylid defnyddio'r blwch hwn ond lle mae pryder gwirioneddol ynghylch cysylltu â'r person hwn ynglŷn â'r plentyn.

Marwolaeth plentyn

4.12 Os bydd plentyn yn marw tra bydd yng ngofal awdurdod lleol a chyn y bydd yr awdurdod lleol wedi cyflwyno ffurflen ynglŷn â'r plentyn hwnnw, yna dylai'r awdurdod lleol ddal i gyflwyno'r wybodaeth uchod am y plentyn, gan y gall yr arian CYP ddal i fod yn daladwy. Yn ogystal, dylai'r awdurdodau lleol gynnwys dyddiad marwolaeth y plentyn ac enw a chyfeiriad ei g/chynrychiolydd personol.[1]

Gwybodaeth Ychwanegol

4.13 Mae lle ar y ffurflen ar gyfer unrhyw wybodaeth ychwanegol a fyddai, ym marn awdurdodau lleol, o gymorth i'r Swyddfa CYP. Gellir defnyddio hwn os oes gan yr awdurdod lleol ei gyfeirnod ei hun ar gyfer y plentyn. Lle bo'n briodol, caiff yr wybodaeth hon ei hanfon ymlaen at y Cyfreithiwr Swyddogol i helpu i reoli'r cyfrif neu i gysylltu â'r awdurdod lleol ynglŷn â phlentyn penodol yn hawdd.

5. Cyfrifoldeb Rhiant a'r Cyfreithiwr Swyddogol

5.1 Dim ond person â **chyfrifoldeb rhiant** am blentyn a all reoli cyfrif CYP y plentyn hwnnw. Mae'r canlynol yn cymryd cyfrifoldeb rhiant:

a. mam y plentyn;

b. tad y plentyn, ar yr amod

- iddo fod yn briod â'r fam ar ddyddiad geni'r plentyn neu ar ôl hynny, neu
- ei fod wedi (ail)cofrestru'r plentyn ar y cyd â'r fam, neu
- fod un o'r rhieni wedi (ail)cofrestru'r plentyn wrth gyflwyno datganiad statudol y mae'r rhiant arall wedi'i wneud;

c. unrhyw berson sydd wedi cael cyfrifoldeb rhiant yn rhinwedd gorchymyn llys (e.e. Gorchymyn Preswylio neu Orchymyn Gwarcheidwadaeth Arbennig), cytundeb cyfrifoldeb rhiant ffurfiol, drwy fabwysiadu neu gael ei benodi'n warcheidwad ar gyfer y plentyn.

5.2 Bydd gan y rhan fwyaf o blant sy'n derbyn gofal rywun â chyfrifoldeb

[1] Person sydd â'r hawl i weinyddu ystad unigolyn ymadawedig (e.e. ysgutor a enwir mewn ewyllys neu berson sydd wedi cael Llythyrau Gweinyddu gan lys).

rhiant a all reoli eu cyfrif CYP ar eu rhan, hyd yn oed os nad ydynt yn byw gydag ef ar hyn o bryd. Serch hynny, mae amgylchiadau lle nad oes neb â chyfrifoldeb rhiant (e.e. plant amddifad heb warcheidwad cyfreithiol), neu mae rhywun â chyfrifoldeb rhiant ond byddai'n amhriodol iddo/iddi reoli'r cyfrif CYP (e.e. lle mae cysylltiad wedi'i gyfyngu oherwydd camdriniaeth).

5.3 Er bod gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb rhiant weithiau am blant sy'n derbyn gofal mae adran 3(8) y Ddeddf Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant yn eu hatal rhag rheoli cyfrifon CYP. Mewn achosion o'r fath lle nad oes neb neu neb priodol (heblaw am yr awdurdod lleol) â chyfrifoldeb rhiant, y Cyfreithiwr Swyddogol a fydd yn rheoli cyfrifon CYP y plant hyn. Bydd y Cyfreithiwr Swyddogol yn ceisio ystyried a pharchu unrhyw fagwraeth ddiwylliannol neu grefyddol neu ddymuniadau'r plentyn wrth benderfynu ar ba fath o gyfrif CYP i'w ddewis ar gyfer y plentyn.

5.4 Fel y trinnir plentyn fel pe na bai ganddo neb neu neb priodol â chyfrifoldeb rhiant, rhaid iddo fod yn derbyn gofal gan awdurdod lleol ac i o leiaf un o'r amodau canlynol fod yn gymwys, fel yr amlinellir yn y rheoliadau.

5.5 **Y chwe amod lle nad oes neb, neu neb priodol, â chyfrifoldeb rhiant:**

Amod 1: lle nad oes neb, neu neb heblaw am yr awdurdod lleol, â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn.

Amod 2: lle y bo'n rhan o gynllun gofal y plentyn y bydd y plentyn yn byw oddi cartref am gyfnod amhenodol ac ni fydd yn cael cysylltiad wyneb yn wyneb ag unrhyw riant sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn.

Amod 3: lle y gwnaethpwyd gorchymyn o dan adran 34(4) Deddf Plant 1989 sy'n awdurdodi'r awdurdod lleol i wrthod caniatáu cysylltiad rhwng y plentyn a pherson â chyfrifoldeb rhiant ac nid oes neb arall mewn sefyllfa i reoli cyfrif CYP y plentyn.

Amod 4: lle mae'r Llys Gwarchod wedi penodi derbynnydd ar gyfer person â chyfrifoldeb rhiant neu benderfynu bod y fath berson yn 'glaf' at ddibenion adran 7 y Ddeddf Iechyd Meddwl, ac nid oes neb arall mewn sefyllfa i reoli cyfrif CYP y plentyn.

Amod 5: lle mae'r plentyn wedi'i golli neu'i adael (o fewn ystyr adran 20(1)(b) Deddf Plant 1989) ac nid oes golwg o ailuno hyd y gellir rhagweld. (Mae hyn yn cynnwys plant a gaiff eu hildio yn syth ar ôl iddynt gael eu geni nad yw eu rhieni am gael unrhyw gysylltiad.)

Amod 6: lle mae asiantaeth fabwysiadu neu awdurdod lleol wedi'i awdurdodi i roi'r plentyn i'w fabwysiadu o dan adran 19, neu gan

orchymyn lleoli o dan adran 21, Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002.

5.6 Bydd y Cyfreithiwr Swyddogol yn cymryd cyfrifoldeb am reoli'r cyfrifon CYP hyn. Mae hyn yn golygu y gall newid darparwr y cyfrif CYP neu'r math o gyfrif CYP os bydd yn teimlo bod angen ac er lles y plentyn. Wedi cymryd cyfrifoldeb am reoli cyfrif CYP, bydd y Cyfreithiwr Swyddogol yn ysgrifennu at y plentyn gan esbonio ei rôl fel person cyswllt cofrestredig a rhoi manylion cyswllt.

5.7 Bydd y Cyfreithiwr Swyddogol yn anfon copi o'r gyfriflen flynyddol at y plentyn, fel bod y plentyn a'i ofalwyr yn ymwybodol o'r cyfrif, rhag ofn yr hoffent gyfrannu at y cyfrif. Bydd y Cyfreithiwr Swyddogol yn ysgrifennu at blentyn pan fydd yn symud cyfrif CYP y plentyn. Bydd yn esbonio pam y symudodd y cyfrif ac yn rhoi gwybod i'r plentyn a'i ofalwyr am ddarparwr newydd y cyfrif. Gallai'r plentyn neu'i ofalwr hefyd gysylltu â'r Cyfreithiwr Swyddogol er mwyn holi ynghylch y cyfrif. Gall y plentyn a'i ofalwyr fynegi'r hyn a fyddai orau ganddynt ond y Cyfreithiwr Swyddogol a fydd yn gwneud yr holl benderfyniadau ar ddethol a rheoli'r cyfrifon gan ddibynnu ar yr hyn sydd, yn ei farn ef, orau i'r plentyn.

5.8 Bydd achlysuron pan fydd angen i'r Cyfreithiwr Swyddogol gysylltu â'r awdurdod lleol am fwy o wybodaeth, er enghraifft lle y daw rhywun â chyfrifoldeb rhiant ar gael. Caiff yr enw cyswllt ar y ffurflen a anfonir i'r Swyddfa CYP ei anfon ymlaen at y Cyfreithiwr Swyddogol am ymholiadau o'r fath.

Amgylchiadau lle mae'r Cyfreithiwr Swyddogol yn peidio â gweithredu

5.9 Bydd rôl y Cyfreithiwr Swyddogol yn dod i ben

- pan fydd y plentyn yn cyrraedd 16 oed, neu
- os bydd y plentyn yn marw, neu
- os daw rhywun â chyfrifoldeb rhiant ar gael ac yn gwneud cais i ymgymryd â rôl y person cyswllt cofrestredig.

5.10 Bydd pob plentyn yn dod yn gyfrifol am ei gyfrif CYP ei hun pan fydd yn cyrraedd 16 oed. Bydd y Cyfreithiwr Swyddogol yn ysgrifennu at y plentyn yn y misoedd cyn ei ben-blwydd yn un mlwydd ar bymtheg oed ac yn ei helpu i gymryd rheolaeth ar ei gyfrif.

5.11 Bydd rôl y Cyfreithiwr Swyddogol yn dod i ben os bydd y plentyn yn marw. Bydd cynrychiolwyr personol y plentyn yn delio â'r CYP fel rhan o weinyddu ystad y plentyn. Os na fydd gan y plentyn neb i weithredu fel y cynrychiolwyr personol bydd Cyfreithiwr y Trysorlys[2] yn gweinyddu materion y plentyn.

[2] Farrer and Co yn Nugiaethau Cernyw a Chaerhirfryn

5.12 Os, ar ôl i'r Cyfreithiwr Swyddogol gymryd rheolaeth ar gyfrif CYP y plentyn, daw rhywun priodol â chyfrifoldeb rhiant ar gael (e.e. bydd rhywun yn cael cyfrifoldeb rhiant o dan orchymyn preswylio) buasai'n well wedyn pe gallai reoli'r Gronfa Ymddiriedolaeth Plant.

5.13 Gall amgylchiadau plentyn newid naill ai tra bydd yn derbyn gofal a llety neu rywbryd ar ôl gadael. Os bydd yn dal i dderbyn gofal dylid cyfeirio'r person at y Cyfreithiwr Swyddogol. Unwaith y bydd wedi cadarnhau hunaniaeth y person bydd y Cyfreithiwr Swyddogol yn cysylltu â'r awdurdod lleol er mwyn cadarnhau bod y person â chyfrifoldeb rhiant. Unwaith y bydd hyn wedi'i gadarnhau bydd yn cymryd y camau angenrheidiol i roi'r gorau i'w rôl ac i ganiatáu i'r person â chyfrifoldeb rhiant fabwysiadu rôl y person cyswllt cofrestredig.

5.14 Os na fydd y plentyn bellach yn derbyn gofal, bydd y Cyfreithiwr Swyddogol yn gwirio hunaniaeth y person. Bydd yn cysylltu â'r awdurdod lleol er mwyn cadarnhau a oedd y person hwn â chyfrifoldeb rhiant ai peidio pan beidiodd y plentyn â derbyn gofal ac a oes unrhyw beth wedi codi hyd eithaf gwybodaeth yr awdurdod lleol a fyddai'n atal y person hwnnw rhag arfer cyfrifoldeb rhiant. Os nad yw'r awdurdod lleol yn adnabod y person bydd y Cyfreithiwr Swyddogol yn ymgymryd â gwiriadau pellach er mwyn ei fodloni ei hun ynglŷn â hunaniaeth y person.

6. Newidiadau mewn Cyfrifoldeb Rhiant

6.1 Fel yr amlinellir yn Rheoliad 33A, dylai awdurdodau lleol hefyd hysbysu'r Swyddfa CYP fel rhan o'u datganiad misol, pan fydd amgylchiadau plentyn yn newid fel nad oes ganddynt bellach rywun priodol â chyfrifoldeb rhiant (h.y. maent yn perthyn i un o'r 6 amod a amlinellir ym mharagraff 5.5).

6.2 Mae hyn nid yn unig ar gyfer y plant y mae'r awdurdodau lleol yn eu hadrodd pan ddeuant i mewn i'w gofal am y tro cyntaf, ond hefyd ar gyfer pob plentyn o oedran CYP sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol hwnnw.

6.3 Mae'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer y plant hyn yr un fath â phan gaiff plentyn ei adrodd am y tro cyntaf (fel yr amlinellir yn adran 4) a dylai awdurdodau lleol ddatgan mai newid mewn amgylchiadau yw hyn yn y blwch gwybodaeth ychwanegol.

6.4 Nid oes angen hysbysu'r Swyddfa CYP pan fydd plentyn yn cael rhywun priodol â chyfrifoldeb rhiant, e.e. pan gaiff plentyn ei fabwysiadu.

7. Dyletswyddau Ychwanegol ar ôl 31 Awst 2009

7.1 Bydd y Llywodraeth yn gwneud cyfraniadau pellach at gyfrifon CYP ar ben-blwyddi plant cymwys yn 7 oed. Daw hyn i rym ar ôl 31 Awst

2009, pan fydd y plant cyntaf yn cyrraedd 7 oed.

7.2 Ar gyfer datganiadau ar gyfer cyfnodau ar ôl 31 Awst 2009, bydd yn rhaid i awdurdodau lleol ddarparu yn eu datganiad misod, fanylion pob plentyn a aned ar neu ar ôl 1 Medi 2002 a fu'n derbyn gofal ar ei ben-blwydd yn 7 oed.

8. Anfon y ffurflen i'r Swyddfa CYP

8.1 Bydd angen i bob awdurdod lleol enwebu swyddog a fydd yn gyfrifol am gynnwys y ffurflen a anfonir i'r Swyddfa CYP. Bydd ganddo hefyd ran i'w chwarae mewn unrhyw ymholiadau a allai godi o'r ffurflen honno. Gallai hyn gynnwys ymholiadau a geir gan y Swyddfa CYP ynghylch manylion plentyn penodol neu gan y Cyfreithiwr Swyddogol.

8.2 Dylid ffacsio'r ffurflen fisol ar:

0191 225 1282

8.3 Ar ôl derbyn y ffurflen wedi'i ffacsio, bydd y Swyddfa CYP yn sicrhau bod yna'r nifer iawn o dudalennau. Os bydd rhywbeth o'i le byddant yn cysylltu â swyddog cyswllt yr awdurdod lleol.

8.4 Mae'r rhifau ffacs uchod i gyd ar gyfer un peiriant ffacs sydd wedi'i leoli o fewn uned ddiogel y Swyddfa CYP o fewn safle diogel yn Waterview Park yn Washington.

8.5 Bydd y Swyddfa CYP fel arfer yn cydnabod pan dderbynnir ffacs fel bod awdurdodau lleol yn gwybod bod y ffacs wedi'i anfon yn llwyddiannus. Efallai bod awdurdodau lleol am gadw'r dderbynneb o'u peiriannau ffacs eu hunain fel tystiolaeth bod y ffurflen wedi'i hanfon.

8.6 Mae Cyllid a Thollau EM yn dal i weithio ar e-gyfathrebu diogel rhwng y Swyddfa CYP a'r awdurdodau lleol. Mae'r dasg o ddod o hyd i ddull sy'n ddigon diogel i anfon manylion plant yn un anodd.

Canlyniadau o fethu darparu datganiad

8.7 Bydd y tîm archwiliadau yng Nghyllid a Thollau EM yn cysylltu â'r awdurdod lleol perthnasol er mwyn ymholi pam na ddarparwyd datganiad a bydd yn cynnig help i gwblhau'r ffurflen.

8.8 Mae Cyllid a Thollau EM yn disgwyl y bydd pob awdurdod lleol am sicrhau na fydd y plant yn ei ofal yn methu cael y CYP. Os daw i'r pen gallai plant ystyried ceisio iawndal gan awdurdodau lleol os byddant yn darganfod yn ddiweddarach fod methiant yr awdurdod i gyflawni ei rwymedigaethau wedi eu rhoi dan anfantais.

9. Materion Eraill

Manylion y Cyfrif CYP

Taliadau Ychwanegol am Blant sy'n Derbyn Gofal

9.1 Bydd yr Adran o Ysgolion Plant a Theuluoedd yn ariannu Awdurdodau Lleol i wneud taliadau ychwanegol o £100 i mewn i gyfrifon CYP rhai plant sy'n derbyn gofal. Mae'r arweiniad sy'n gosod allan y meini prawf ar gyfer y taliadau hyn ar gael yn y dolenni canlynol:

- http://www.everychildmatters.gov.uk/_files/7660DCSFCTFAPayments.pdf ar gyfer plant yn Lloegr
- http://new.wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/circulars/trustfund/?lang=en ar gyfer plant yng Nghymru.

9.2 Gall Awdurdodau Lleol hefyd benderfynu ychwanegu'n bellach i gyfrif CYP plentyn tu hwnt i'r ychwanegiad yma sydd wedi ei ariannu'n ganolog.

Gall uchafswm o £1200 cael ei rhoi mewn cyfrif CYP plentyn mewn unrhyw flwyddyn gan drydydd parti, er enghraifft rhieni a theulu. Bydd unrhyw daliad ychwanegol yn cyfrif tuag at y terfyn blynyddol cyflawn.

Sut ydych yn darganfod manylion cyfrif CYP?

9.3 Os yw'r Awdurdod Lleol wedi eisoes wneud taliad ychwanegol i mewn i gyfrif CYP plentyn, gall yr awdurdod lleol ymgynghori a'u cofnodion eu hunain i gael manylion cyfrif CYP plentyn. Ar gyfer unrhyw blentyn nad yw eu manylion cyfrif CYP yn wybodus i'r awdurdod lleol gellir eu cael drwy gysylltu â'r person a chyfrifoldeb rhieniol, (fel diffinnir yn adran 5.1 o'r arweiniad hwn); ac os nad yw hynny'n cynhyrchu'r wybodaeth sydd eu hangen yna gellir cysylltu â CThEM.

9.4 Dylai cais cael ei ffacsio i'r rhifau ffacs arferol a dylai cynnwys rhestr wedi ei rhifo yn manylu enw'r plentyn, dyddiad geni ac, os y gwyddir, eu rhif cyfeirnod unigryw a'r dyddiad yr aethant i mewn i ofal. Pwynt cyswllt ar gyfer cwestiynau ar y pwnc yma yw 0191 224 7018 / 0191 224 7073. Bydd CThEM yn dychwelyd drwy ffacs rhestr wedi ei rhifo yn dangos manylion y darparwr cyfrif a rhif cyfeirnod unigryw'r plentyn gall yr awdurdod lleol defnyddio i gysylltu â'r darparwr yn unswydd er mwyn cael manylion y cyfrif. Gwelir atodaidau B a C ar gyfer y ffurflenni i ddefnyddio.

Afiechyd terfynol a mynediad cynnar

9.5 Y rheol gyffredinol yw na ellir codi unrhyw arian o gyfrif CYP hyd nes y bydd y plentyn sy'n dal y cyfrif yn 18 oed. Yr eithriad i hyn yw lle mae afiechyd terfynol ar y plentyn. Mae'r Llywodraeth am i'r plant y mae

afiechyd terfynol arnynt allu cael mantais o'r arian yn eu cyfrifon CYP. Mae'r rheolau ynglŷn â chaniatáu i blant y mae afiechyd terfynol arnynt gael eu harian yn gynnar yn Rheoliadau Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant (Diwygio) 2004.

9.6 Mae'r CYP yn defnyddio'r diffiniad o "afiechyd terfynol" yn adran 66(2) Deddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992: mae "afiechyd terfynol" ar berson os yw'n dioddef gan glefyd cynyddol a gellir disgwyl ei farwolaeth o ganlyniad i'r clefyd hwnnw o fewn 6 mis.

9.7 Mae'r rheoliadau yn rhoi'r hawl i Awdurdodau Lleol wneud cais afiechyd terfynol os oes ganddynt gyfrifoldeb rhiant am blentyn. Os yw awdurdod lleol yn ystyried gwneud cais i gael mynediad i'r arian mewn CYP, dylai gysylltu â'u person cyswllt yn y Swyddfa CYP a fydd yn gallu eu cynghori ynghylch y ffordd orau i fynd ati.

Plant sydd wedi marw wrth dderbyn gofal

9.8 Mae'r arian yng nghyfrif CYP plentyn yn ffurfio rhan o'i ystad ac fel ei eiddo arall yn amodol ar y rheolau diffyg ewyllys. Nid oes rhaid i awdurdodau lleol hysbysu'r Swyddfa CYP pan fydd plentyn yn marw yn eu gofal, onid adroddwyd y plentyn hwnnw gynt (a ganed ar neu ar ôl 1 Medi 2002).

Pan fydd plentyn sy'n derbyn gofal yn newid awdurdod lleol

9.9 Os bydd plentyn sy'n derbyn gofal yn symud i ardal awdurdod lleol arall, bydd yr awdurdod lleol â chyfrifoldeb cyfreithiol am y plentyn yn dal yn gyfrifol am y datganiadau CYP. Lle mae'r awdurdod lleol newydd â chyfrifoldeb cyfreithiol, bydd angen iddo ddatgan bod y plentyn wedi dod i mewn i'w ofal.

Pan fydd plentyn yn gadael gofal awdurdod lleol

9.10 Pan fydd plentyn yn gadael ei ofal, dylai'r awdurdod lleol annog y plentyn neu ofalwyr newydd y plentyn i ymddiddori yn ei gyfrif CYP. Ar hyn o bryd mae'r Cynllun Llwybr y mae ymgynghorydd y person ifanc yn ei gydlynu yn cynllunio llwybr i annibyniaeth ar gyfer pobl sy'n gadael gofal gan gynnwys asesu a chwrdd â'u hanghenion ariannol.

9.11 Mae awdurdodau lleol, fel rhieni, yn gyfrifol am asesu a chwrdd ag anghenion ariannol pobl 16-17 oed sy'n gadael gofal. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gadw mewn cysylltiad â'r bobl sy'n gadael gofal hyd nes y byddant o leiaf yn 21 oed, neu'n hwyrach os ydynt yn dal i gael cymorth gydag addysg neu hyfforddiant. Dylai'r bobl ifanc hyn allu dibynnu ar yr un trefniadau ar gyfer cymorth ariannol â phobl 18-21 oed eraill. Dylai'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol barhau i ddarparu cymorth gyda chostau addysg neu hyfforddiant.

9.12 Ni fydd yn rhaid i awdurdodau lleol hysbysu'r Swyddfa CYP pan fydd

plentyn yn gadael eu gofal.

Mabwysiadu

9.13 Pan gaiff plentyn ei fabwysiadu dylai'r awdurdod lleol naill ai darparu manylion cyfrif CYP y plentyn i'r rhieni sy'n mabwysiadu os ydynt ganddo neu annog y rhieni newydd i gysylltu â'r Llinell Gymorth CYP i gael manylion cyfrif CYP y plentyn fel y gall gymryd rhan weithredol yn y cyfrif.

9.14 Mae taflen wybodaeth ynglŷn â mabwysiadu a maethu ar gael ar wefan Cyllid a Thollau EM y gallai awdurdodau lleol ei gweld fel y bo'n briodol – www.hmrc.gov.uk/ctf/la-info.htm.

9.15 Mabwysiadu o wlad dramor – Lle y caiff plentyn ei fabwysiadu o wlad dramor, dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod y plentyn yn dod o fewn diffiniad plentyn sy'n derbyn gofal at ddibenion CYP cyn adrodd y plentyn hwn wrth y Swyddfa CYP.

Seibiant byr / Gofal Seibiant / Gorchmynion Gofal Dros Dro

9.16 Mae plant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol o dan y darpariaethau seibiant byr/gofal seibiant/gorchmynion dros dro yn dod o dan y diffiniad o dderbyn gofal at ddibenion y CYP. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gwblhau ffurflen ar eu cyfer y tro cyntaf y byddant yn derbyn gofal yr awdurdod lleol hwnnw. Nid oes angen i'r un awdurdod lleol gwblhau ffurflen ar gyfer yr un plentyn bob tro y bydd yn derbyn gofal a llety

Cydymffurfiad Budd-dal Plant

9.17 Os bydd y Swyddfa Cronfa Ymddiriedolaeth Plant yn gweld fod cais am Budd-dal Plant wedi ei wobrwyo pan maent yn cael eu hysbysu fod plentyn yn cael ei edrych ar am y to cyntaf byddent yn hysbysu'r Swyddfa Budd-dal Plant a all ymchwilio'n bellach er mwyn sicrhau y cydymffurfir â rheolau Budd-dal Plant.

Addysg Ariannol

9.18 Yn gyffredinol, bydd plant sy'n derbyn gofal yn derbyn addysg ariannol mewn perthynas â'u cyfrif CYP drwy'r system ysgolion, yn yr un modd â phlant eraill. Wrth i blant heneiddio, gallai awdurdodau lleol gyfeirio plant yn eu gofal at y wefan CYP un pwrpas www.childtrustfund.gov.uk. Bydd hon yn darparu mwy o wybodaeth am y CYP ac addysg ariannol. Ceir hefyd adran ar y wefan hon i blant sy'n rhy hen i fod yn gymwys ar gyfer y CYP.

10. Mwy o Wybodaeth

10.1 Pwrpas y canllawiau hyn yw helpu awdurdodau lleol i gwblhau'r ffurflenni sy'n orfodol yn ôl statud. Ceir mwy o wybodaeth am y Gronfa

Ymddiriedolaeth Plant ar wefan Cyllid a Thollau EM http://www.hmrc.gov.uk/ctf/. Ceir gwybodaeth i rieni a gofalwyr yn www.childtrustfund.gov.uk. Neu gall y swyddog awdurdod lleol sy'n gyfrifol am wneud datganiadau gysylltu â'r Swyddfa CYP.

Person cyswllt y Swyddfa CYP a enwir

10.2 Mae staff y Swyddfa CYP yn gweithredu fel personau cyswllt ar gyfer awdurdodau lleol unigol. Mae rhestr o bersonau cyswllt y Swyddfa CYP ynghlwm wrth y canllawiau hyn yn Atodiad A.

Dynodwyr Unigryw a Phersonau Cyswllt y Swyddfa CYP (Lloegr)

	Dynodydd Unigryw	Person Cyswllt y Swyddfa CYP
Barnsley MBC	10233	Allwch gysylltu ag unrhyw un o'r swyddogion isod fydd yn medru eich cynorthwyo gyda'ch ymholiad: Michael Beattie, – 0191 224 7073 Diane Lawless, – 0191 224 7073 Wendy Borsberry – 0191 224 7073 Colleen Wilkinson – 0191 224 7073 Karen Brown – 0191 224 7018 Joanne Robson – 0191 224 7018
Bath & North East Somerset Council	11027	
Bedfordshire CC	10724	
Birmingham City Council	11001	
Blackburn with Darwin BC	10472	
Blackpool BC	10805	
Bolton MBC	10134	
Bournemouth BC	11098	
Bracknell Forest BC	12102	
Bradford City Metropolitan Council	10843	
Brighton & Hove Council	10713	
Bristol English Unitary	10342	
Buckinghamshire CC	10344	
Bury MBC	10725	
Calderdale MBC	10918	
Cambridgeshire CC	12679	
Cheshire CC	12477	
City of Coventry	10255	
City of London	21582	
City of Newcastle	10777	
City of Sunderland	10427	
City of York Council	10828	
Cornwall CC	15249	
Council of the Isles of Scilly	11089	
Cumbria CC	10416	
Darlington BC	10706	
Derby City Council	12140	
Derbyshire CC	11259	
Devon CC	10921	
Doncaster MBC	10726	
Dorset CC	12300	
Dudley MBC	10604	
Durham CC	13977	
East Northamptonshire DC	12376	
East Riding of Yorkshire Council	15774	
East Sussex CC	11094	
Essex CC	10840	
Gateshead MBC	11100	
Gloucestershire CC	15250	

Halton BC	11186	
Hampshire CC	12315	
Haringey Council	14990	
Hartlepool BC	12024	
Herefordshire CC	12036	
Hertfordshire CC	12169	
Isle of Wight English Unitary	10378	
Kent CC	10387	Allwch gysylltu ag unrhyw un o'r swyddogion isod fydd yn medru eich cynorthwyo gyda'ch ymholiad: Michael Beattie, – 0191 224 7073 Diane Lawless, – 0191 224 7073 Wendy Borsberry – 0191 224 7073 Colleen Wilkinson – 0191 224 7073 Karen Brown – 0191 224 7018 Joanne Robson – 0191 224 7018
Kingston upon Hull City Council	10354	
Kirklees Metropolitan Council	10838	
Knowsley MBC	11076	
Lancashire CC	10736	
Leeds City Council	11122	
Leicester City Council	11074	
Leicestershire CC	15027	
Lincolnshire CC	11121	
Liverpool City Council	11919	
London Borough of Barking & Dagenham	11933	
London Borough of Barnet	10798	
London Borough of Bexley	12649	
London Borough of Brent	10532	
London Borough of Bromley	10012	
London Borough of Camden	10629	
London Borough of Croydon	12075	
London Borough of Ealing	11021	
London Borough of Enfield	11036	
London Borough of Greenwich	10356	
London Borough of Hackney	10830	
London Borough of Hammersmith & Fulham	11178	
London Borough of Harrow	12089	
London Borough of Havering	10537	
London Borough of Hillingdon	11219	
London Borough of Hounslow	10048	
London Borough of Islington	10628	
London Borough of Lambeth	11090	
London Borough of Lewisham	12032	
London Borough of Merton	10219	
London Borough of Newham	12609	
London Borough of Redbridge	10266	
London Borough of Richmond Upon Thames	10669	
London Borough of Southwark	10115	
London Borough of Sutton	10785	
London Borough of Tower Hamlets	10879	

London Borough of Waltham Forest	10644	
London Borough of Wandsworth	11240	
Luton BC	11220	
Manchester City Council	10543	
Medway Council	18022	
Middlesborough BC	10005	
Milton Keynes Council	11194	
Norfolk CC	10057	Allwch gysylltu ag unrhyw un o'r swyddogion isod fydd yn medru eich cynorthwyo gyda'ch ymholiad: Michael Beattie, – 0191 224 7073 Diane Lawless, – 0191 224 7073 Wendy Borsberry – 0191 224 7073 Colleen Wilkinson – 0191 224 7073 Karen Brown – 0191 224 7018 Joanne Robson – 0191 224 7018
North East Lincolnshire Council	15775	
North Lincolnshire Council	10287	
North Somerset DC	10120	
North Tyneside MBC	10446	
North Yorkshire CC	12627	
Northamptonshire CC	21662	
Northumberland CC	10503	
Nottingham City Council	11077	
Nottinghamshire CC	12691	
Oldham MBC	10293	
Oxfordshire CC	10659	
Peterborough City Council	10232	
Plymouth City Council	10694	
Poole BC	10231	
Portsmouth City Council	12708	
Reading BC	10161	
Redcar & Cleveland Council	12566	
Rochdale MBC	10881	
Rotherham MBC	11093	
Royal Borough of Kensington & Chelsea	10450	
Royal Borough of Kingston-upon-Thames	11215	
Royal Borough of Windsor & Maidenhead	10021	
Rutland CC	10554	
Salford City Council	10274	
Sandwell MBC	11144	
Sefton MBC	10658	
Sheffield City MDC	10310	
Shropshire CC	11157	
Slough BC	10254	
Solihull MBC	10379	
Somerset CC	21581	
South Gloucestershire English Unitary	15776	
South Shropshire	11962	
South Tyneside MBC	10216	
Southampton City Council	12434	

Southend on Sea BC	10382	
St Helens MBC	12225	
Staffordshire CC	10764	
Stockport MBC	10747	
Stockton-on-Tees BC	12372	
Stoke on Trent City Council	10244	
Suffolk CC	10124	
Surrey CC	10645	
Swindon BC	10993	
Tameside MBC	11167	
Telford & Wrekin Council	11132	
Thurrock BC	10109	
Torbay BC	11239	
Trafford MBC	10886	
Wakefield MBC	12108	
Walsall MBC	10301	
Warrington BC	11238	
Warwickshire CC	10510	
West Berkshire Council	10351	
West Sussex CC	12226	
Westminster City Council	12558	
Wigan MBC	10751	
Wiltshire CC	10584	
Wirral MBC	10033	
Wokingham DC	10776	
Wolverhampton City Council	10151	
Worcester CC	11061	

Dynodwyr Unigryw a Phersonau Cyswllt y Swyddfa CYP (Cymru)

	Dynodydd Unigryw	Person Cyswllt y Swyddfa CYP
Blaenau Gwent	11166	Allwch gysylltu ag unrhyw un o'r swyddogion isod fydd yn medru eich cynorthwyo gyda'ch ymholiad: Michael Beattie, – 0191 224 7073 Diane Lawless, – 0191 224 7073 Wendy Borsberry – 0191 224 7073 Colleen Wilkinson – 0191 224 7073 Karen Brown – 0191 224 7018 Joanne Robson – 0191 224 7018
Pen-y-bont ar Ogwr	10178	
Caerdydd	10544	
Caerffili	15644	
Ceredigion	10400	
Conwy	15777	
Cyngor Gwynedd	15778	
Dinas a Sir Abertawe	15783	
Sir Ddinbych	15780	
Sir Gaerfyrddin	15779	
Sir y Fflint	15643	
Merthyr Tudful	10791	
Cyngor Sir Fynwy	11208	
Bro Morgannwg	10908	
Casnewydd	10618	
Castell Nedd Port Talbot	15781	
Gorllewin Morgannwg	10705	
Powys	15139	
Rhondda Cynon Taf	10324	
Sir Benfro	15782	
Sir Wrecsam	10126	
Torfaen	10969	
Ynys Môn	12085	

Atodiad B / **Annex B**

CAIS AM WYBODAETH I SWYDDFA CRONFA YMDDIRIEDOLAETH PLANT AM FANYLION DARPARWR / INFORMATION REQUEST TO CHILD TRUST FUND OFFICE FOR PROVIDER DETAILS

ENW AWDURDOD LLEOL / NAME OF LOCAL AUTHORITY:

RHIF ADNABOD UNIGRYW AWDURDOD LLEOL / LOCAL AUTHORITY UNIQUE ID NUMBER:

SWYDDOG CYSWLLT / LIAISON OFFICER:

Plentyn / Child	Cyfenw / Surname	Enw Cyntaf / Forename	Dyddiad Geni / Date of Birth	Rhif Cyfeirnod Unigryw CYP (os wyddir) / Unique CTF Reference Number (if known)	Dyddiad Aeth y Plentyn i Mewn i Ofal am y Tro Cyntaf / Date Child First Entered Care
1					
2					
3					
4					
5					
6					
7					
8					
9					
10					

Atodiad C / **Annex C**

MANYLION DARPARWR CYFLENWAD I AWDURDOD LLEOL / SUPPLY PROVIDER DETAILS TO LOCAL AUTHORITY

ENW AWDURDOD LLEOL / NAME OF LOCAL AUTHORITY:

RHIF ADNABOD UNIGRYW WAWDURDOD LLEOL / LOCAL AUTHORITY UNIQUE ID NUMBER

SWYDDOG CYSWLLT / LIAISON OFFICER:

Rhif Plentyn ar restr darparwydgan ALl / Child's Number on list provided by the LA	Enw Cyntaf / Forename	Rhif Cyfeirnod Unigryw CYP / Unique CTF Reference Number	Enw Darparwr / Name of Provider	Cyfeiriad Darparwr / Address of Provider	Rhif Llinell Gymorth Darparwr / Provider Helpline Number
1					
2					
3					
4					
5					
6					
7					
8					
9					
10					